# Datgloi addysg i bawb

Fframwaith Cwricwlwm i Blant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg yng Nghymru



Datblygwyd gyda

RNIB Cymru

Golwg gwahanol

University of Birmingham

VIEW

TPT Thomas Pocklington Trust

# Datgloi addysg i bawb

Rydym yn rhy aml yn clywed straeon gan blant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), eu rhieni a'u gofalwyr, a'r rhai sy'n eu cefnogi, am bethau sy'n mynd o chwith. Yn rhy aml, mae cael y gefnogaeth gywir yn ei lle yn brofiad anodd i bawb. Gall effaith hyn ar yr unigolion hynny ag ADY fod yn sylweddol. Mae angen gwneud mwy.

Mae'n hanfodol ar gyfer anableddau llai cyffredin, fel nam ar y golwg (VI), bod dealltwriaeth gyffredin o anghenion y plentyn neu'r person ifanc sy'n cael ei gefnogi. Mae'r Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg (CFVI) yn darparu diffiniad y mae mawr ei angen ac iaith a rennir ar gyfer y datblygiad sgiliau arbenigol sydd ei angen ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar eu golwg.

Bydd y CFVI yn helpu plant a phobl ifanc â nam ar y golwg, ac addysgwyr arbenigol, ynghyd â gweithwyr addysg proffesiynol ym mhob sector, rhieni a gofalwyr, i ddeall cymhlethdodau cymorth arbenigol ar gyfer addysg nam ar y golwg yng nghyd-destun y sgiliau bywyd ehangach sydd eu hangen. Bydd yn galluogi gwell gweithio mewn partneriaeth ac, yn bwysig, mae'n rhoi'r plant a'r bobl ifanc yn ganolog ar eu llwybr i fyd oedolion. Ar gyfer arbenigwyr VI, mae'n darparu dull gweithredu mwy cyson, ac i'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr, mae'n helpu i symleiddio datblygiad sgiliau arbenigol i alluogi arferion dysgu cynhwysol mwy effeithiol.



Mae nasen yn gweithio i sicrhau bod gan y gweithlu adnoddau llawn i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY. Bydd y CFVI yn cefnogi gweithwyr VI proffesiynol i ddarparu'r gorau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc maent yn eu cefnogi. O'i ddefnyddio yn y ffordd gywir, gall y CFVI drawsnewid bywydau; dyma pam rydym yn galw am gydnabod y CFVI yn ffurfiol fel adnodd hanfodol wrth gefnogi polisi ar draws y DU.

**Annamarie Hassall** MBE, Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Genedlaethol Anghenion Addysgol Arbennig (nasen)

# Cynnwys


2 Datgloi addysg i bawb
4 Cyflwyno'r CFVI: Fframwaith ar gyfer datgloi addysg
5 Llwyddo drwy gydweithio
7 Gwerth addysg arbenigol
8 Astudiaeth Achos: Sarah Hughes, QTVI
9 Addysg ddarniog
10 Astudiaeth Achos: Profiad rhiant
11 Cloi allan o addysg ôl-16
11 Cloi allan o'r gweithle
12 Pan mae pethau'n mynd o chwith
13 Cael y cyllid yn iawn
13 Beth sydd angen digwydd nesaf
14 Casgliad
15 Cyfeiriadau




# Cyflwyno'r CFVI:
# Fframwaith ar gyfer datgloi addysg

Gall cael mynediad at addysg a chymorth i blant a phobl ifanc â nam ar eu golwg (VI) fod yn gymhleth. Mae tystiolaeth yn dangos bod y system bresennol yn methu; gall diffyg cefnogaeth atal plant a phobl ifanc rhag datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni eu potensial fel oedolion.

Mae'r Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg (CFVI) am y tro cyntaf yn cynnig fframwaith ledled y DU ar gyfer ymarferyddion arbenigol ac anarbenigol, plant a phobl ifanc â nam ar y golwg, a'u teuluoedd a'u gofalwyr i ddatgloi a deall y cymorth a'r addysg angenrheidiol. Mae'r CFVI yn helpu drwy fynd i'r afael â'r materion niferus a brofir gan blant a phobl ifanc â nam ar y golwg, gan gynnwys:

- Y bwlch cyrhaeddiad rhwng plant a phobl ifanc â nam ar y golwg a'r boblogaeth gyffredinol
- Canlyniadau cyflogaeth gwael, gan gynnwys bod yn agored iawn i ddod yn NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) hirdymor
- Cynhwysiant cymdeithasol, iechyd meddwl a lles gwael
- Darpariaeth anghyson o gymorth arbenigol
- Diffyg gweithio unedig rhwng gweithwyr proffesiynol arbenigol ac anarbenigol.

Mae'r fframwaith wedi'i ddatblygu gan ymgynghori â gweithwyr proffesiynol, plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr. Defnyddiwyd dull Delphi, a oedd yn cynnwys dychwelyd dro ar ôl tro at banel o arbenigwyr hyd nes cafwyd consensws. Mae wedi cael croeso eithriadol dda yn y sector addysg nam ar y golwg, gyda 95 y cant naill ai'n 'fodlon iawn' neu'n 'fodlon' â'r fframwaith terfynol [1].

Mae'r CFVI yn cynnig cyfraniad trawsnewidiol i bolisïau ac arferion y DU o ran sicrhau bod plant a phobl ifanc â nam ar y golwg yn gallu llywio drwy systemau addysg cymhleth a sicrhau mynediad teg i'r gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt. Gall ei weithredu arwain at addysg fwy cynhwysol.

Er mwyn llwyddo, rydym yn galw am y canlynol mewn perthynas â'r CFVI:

- Ei gydnabod a chyfeirio ato mewn polisïau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth ADY newydd a Chodau diwygiedig
- Ei ymgorffori mewn fframweithiau darparu gwasanaethau awdurdodau lleol
- Pob lleoliad addysgol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc â nam ar eu golwg a'u teuluoedd yn cadw ato, mewn partneriaeth ag arbenigwyr VI
- Ei ymgorffori mewn safonau ansawdd ar gyfer athrawon plant â nam ar eu golwg ac arbenigwyr sefydlu ledled y DU.

Bydd y ffordd y caiff y CFVI ei roi ar waith ym mhob un o wledydd y DU yn amrywio, mae adroddiadau ar wahân yn nodi'r dystiolaeth ac yn gofyn am Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

# Llwyddo drwy gydweithio

Mae nam ar y golwg yn anabledd angen mawr, amledd isel a bydd y cymorth sydd ei angen yn amrywio'n fawr rhwng unigolion. I blant a phobl ifanc â nam ar y golwg, mae llywio drwy gymhlethdodau addysg yn feichus iawn. Nid oes angen i hyn ddigwydd.

Mae athrawon prif ffrwd a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud ag addysg yn debygol o fod ag ychydig neu ddim profiad o gefnogi plant a phobl ifanc â nam ar y golwg. Gall defnyddio'r CFVI wella dealltwriaeth i sicrhau bod mynediad teg a chyfartal i addysg, yn ogystal â'r cymorth cywir i gynyddu annibyniaeth a pharatoi plant a phobl ifanc â nam ar y golwg ar gyfer bod yn oedolion.


## Mynediad i ddysgu a dysgu sicrhau mynediad

Er mwyn cael y gorau o addysg, mae angen cymorth ac arweiniad penodol ar blant a phobl ifanc â nam ar y golwg i gael mynediad i'r cwricwlwm [2]. Mae'r CFVI yn nodi 11 maes dysgu a chanlyniadau enghreifftiol. Mae'r rhain yn seiliedig ar ddull cyfannol o weithio ac yn ystyried anghenion datblygiadol, addysgol, cymdeithasol a lles plant a phobl ifanc â nam ar y golwg. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technoleg, er enghraifft y gallu i gyffwrdd teipio a darllen yn ôl gan ddefnyddio darllenydd sgrin ar gyfer adolygu; sicrhau mynediad i ddeunyddiau dysgu; sefydlu, fel y gallu i ddefnyddio sgiliau symudedd a chyfeiriadedd i symud rhwng gwersi; llythrennedd, er enghraifft, datblygu llythrennedd braille i gael mynediad i holl feysydd craidd y cwricwlwm; a pharatoi ar gyfer bod yn oedolyn, fel cynllunio gyrfa neu bontio i leoliadau byw â chymorth. Rhoddir trosolwg o'r CFVI yn Ffigur 1.

Mae'r fframwaith yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu ystod eang o sgiliau arbenigol, cael yr wybodaeth a'r profiadau sydd eu hangen i baratoi ar gyfer gadael addysg ac mae'n cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol.

Yn ganolog i'r dull hwn o weithredu mae'r model mynediad deuol, sy'n cael ei adnabod fel **'mynediad at ddysgu'** a **'dysgu sicrhau mynediad'**. Dyma'r gydnabyddiaeth bod addysg gynhwysol yn cael ei hyrwyddo drwy gydbwyso arfer cynhwysol cyffredinol ag ymyriadau arbenigol sy'n seiliedig ar sgiliau. Mae hyn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc â nam ar y golwg yn cael mynediad teg i gwricwlwm a system addysg a rennir a hefyd yn datblygu'r sgiliau arbenigol i ddatblygu medrau personol a chynyddu annibyniaeth. Mae'r athroniaeth hon yn wir ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc â nam ar y golwg – hen neu ifanc, gydag anghenion ychwanegol a chymhleth neu hebddynt – ac mae'r CFVI yn hyrwyddo hyn drwy bennu disgwyliadau uchel o'r addysg ar bob lefel ym mhob lleoliad.


**Ffigur 1:** Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg (CFVI)



# Gwerth addysg arbenigol

Mae angen i blant a phobl ifanc â nam ar y golwg gael eu haddysgu mewn amrywiaeth o sgiliau arbenigol, gan addysgwyr arbenigol, sy'n hybu dysgu annibynnol, symudedd, byw o ddydd i ddydd a chyfathrebu cymdeithasol. Darperir addysgu a chefnogaeth gan Athrawon Cymwysedig Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg (QTVIs), Arbenigwyr Cymhwyso Cymwysedig Cofrestredig (RQHSs) a Chynorthwywyr Addysgu (TAs) hyfforddedig arbenigol. Eu rôl yw cefnogi datblygiad y sgiliau sydd eu hangen i fyw yn annibynnol fel oedolion, llwyddo a chymryd rhan mewn addysg, dechrau cyflogaeth, a chynghori pobl nad ydynt yn arbenigwyr a theuluoedd ar y ffordd orau o hwyluso hyn.

Mae'r CFVI yn darparu iaith a rennir a dull gweithredu cytûn ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol arbenigol ac anarbenigol i gydweithio a chefnogi plant a phobl ifanc â nam ar y golwg.



# Astudiaeth Achos: Sarah Hughes, QTVI

**Mae Sarah Hughes yn Athrawes Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg (QTVI) cymwysedig ac yn Bennaeth Gwasanaeth Nam ar y Golwg SENCOM sy'n cefnogi pum awdurdod lleol ar draws De Ddwyrain Cymru. Mae Sarah hefyd yn Gadeirydd WAVIE (Cymdeithas Addysgwyr Nam ar y Golwg Cymru).**

"Mae fframwaith y cwricwlwm yn ddefnyddiol i ni wrth i ni egluro i deuluoedd, plant ac ysgolion, a'n staff ni ein hunain, ble mae ein swyddogaethau ni i gyd yn cyd-fynd â'i gilydd fel bod pob plentyn yn cael y cyfle i gael y cymorth cofleidiol yma a fydd yn eu gwneud yn barod ar gyfer bywyd fel oedolyn".



Mae'r CFVI, i mi, yn ffordd o egluro i ysgolion yn hawdd iawn beth ydyn ni'n ei wneud, beth sydd angen i'r plentyn ei ennill o ran sgiliau a dysgu. Hyd yn oed pan fydd plentyn yn cael ei eni i ddechrau, os oes ganddo nam ar ei olwg, cyn gynted ag y bydd ein gwasanaethau ni'n gysylltiedig, rydyn ni'n meddwl am y plentyn fel oedolyn a'r hyn y mae angen iddo ei wneud ar y siwrnai honno o blentyndod i fod yn oedolyn, i fod yn barod am hynny. Fel rhan o hyn, bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn datblygu cynlluniau datblygu unigol a phroffiliau un dudalen. Bydd yn bwysig i ni gyfeirio at y CFVI er mwyn gallu esbonio i ysgolion beth yw ein rhan ni o fewn gwneud yn siŵr bod y plentyn yn cael yr holl gyfleoedd ar gyfer 'mynediad at ddysgu' a 'dysgu sicrhau mynediad'. Rydw i wrth fy modd gyda'r egwyddor yma, mae'n crynhoi'n dda iawn yr hyn rydyn ni'n ei gefnogi yn y ffordd rydyn ni'n ei wneud.

Gellir mapio gwerthoedd y Cwricwlwm i Gymru yn gyfan gwbl i'r CFVI. Rydyn ni'n gallu siarad ag ysgolion am sut mae'r CFVI yn arbennig o bwysig i'r plant hynny â nam ar eu golwg a gall gyfoethogi'r Cwricwlwm i Gymru.

# Addysg ddarniog

Nid yw plant a phobl ifanc â nam ar y golwg yn cael mynediad at y cymorth arbenigol sydd arnynt ei angen i gymryd rhan a ffynnu mewn addysg. Mae ymchwil yn gyson yn tynnu sylw at bwysigrwydd cefnogaeth arbenigol i sicrhau bod plant a phobl ifanc â nam ar y golwg yn cael y cyfle gorau i symud ymlaen yn academaidd ac i barhau i fyw mor annibynnol â phosibl [3]. Fodd bynnag, heb fynediad at y cymorth arbenigol sydd arnynt ei angen, rydym yn gwybod bod llawer o blant a phobl ifanc yn cael eu siomi ac yn cael eu gadael ar ôl.

Mae adroddiad Rhyddid Gwybodaeth 2023 RNIB Cymru yn tynnu sylw at amrywiadau mewn arferion ac anghydraddoldeb daearyddol eang [4]. Ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, ceir strwythurau gwasanaeth, arferion a chyllidebau amrywiol.

- Mae cymhareb y QTVIs i blant a phobl ifanc ar y baich achosion gweithredol yn amrywio o 1:13 i 1:85; gyda baich achosion uchel, mae'r arbenigwyr sydd eu hangen i addysgu a chefnogi datblygiad sgiliau arbenigol o dan bwysau sylweddol o ran amser ac adnoddau
- Mae canran y plant a'r bobl ifanc ar faich achosion gweithredol gwasanaeth nam ar y golwg awdurdod lleol (ALl) sy'n cael mynediad, neu ar restr aros i gael mynediad, at gymorth cymhwyso yn amrywio o lai na 9% i 48%, gyda'r amser rhwng atgyfeirio ac ymweliad cychwynnol yn amrywio o 1 wythnos i tua 12 mis.

Mae gan y clytwaith hwn o gymorth anghyson y potensial i adael rhai plant a phobl ifanc heb y cymorth sydd arnynt ei angen i gael mynediad i addysg.



## **Astudiaeth achos:** Profiad rhiant

**Hannah, rhiant i berson ifanc sydd wedi'i gofrestru â Nam Difrifol ar y Golwg sy'n mynychu ysgol uwchradd prif ffrwd yng Nghymru**

> **"Mae'r addysg nam ar y golwg wedi bod yn dda iawn i fy mab i. Pe na bawn i wedi bod y math o riant i fynnu'r gorau iddo, efallai y byddai wedi bod yn wahanol. Roedd y QTVI yn wych ac addaswyd yr holl waith drwy'r ysgol gynradd".**

Yn yr ysgol uwchradd roeddwn i eisiau i fy mab gael iPad a thechnoleg Microsoft i adlewyrchu bwrdd gwyn y dosbarth. Roeddwn i eisiau iddo gael y profiad dosbarth llawn roedd ei ffrindiau yn ei gael. Doedd y cyngor ddim yn caniatáu hyn, gan ddweud bod diogelwch yn broblem, felly fe wnes i eu gwthio nhw i drefnu dull arall. Mae bellach yn defnyddio Dolphin Connect and Learn ac iPad Pro. Mae'n gwneud yn dda iawn gyda'r rhain ond yn mynd yn flinedig weithiau. Mae'n dda iawn am siarad drosto'i hun. Mae gen i berthynas anhygoel gyda'r Cynorthwy-ydd Addysgu. Mae hi'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am yr hyn sy'n digwydd, ac mae hi'n gwybod sut i gefnogi fy mab ac yn deall y cydbwysedd cywir i'w daro rhwng annog annibyniaeth a chamu i'r adwy pan fydd ei lygaid wedi blino a phan mae angen help.

Mae sgiliau technoleg wedi helpu fy mab gyda'i annibyniaeth. Mae ganddo hefyd sgiliau cymdeithasol da. Mae wir yn mwynhau coginio ac mae wedi dysgu llawer o sgiliau cegin. Mae wedi cael hyfforddiant symudedd hefyd. Rydw i wedi cefnogi ei annibyniaeth yn fawr felly doedd e ddim angen cymaint o sesiynau ag yr oedd y Swyddog Symudedd yn meddwl y byddai. Rydw i'n meddwl, oherwydd fy mod i'n deall y problemau, rydw i wedi ceisio ei wneud yn fwy annibynnol o oedran ifanc. Rydw i'n meddwl bod sgiliau cymhwyso yn hanfodol i unrhyw berson ifanc â nam ar y golwg. Rydw i'n meddwl ei bod yn bwysig i wasanaethau addysg nam ar y golwg godi ymwybyddiaeth ymhlith holl staff yr ysgol o sut i gefnogi plentyn â nam ar y golwg. Mae angen i'r athrawon wybod bod y plentyn yn unigolyn ac mae'n bwysig gwybod beth sy'n ei wneud yn hapus a beth all achosi problemau iddo. Rydw i hefyd yn meddwl ei bod yn bwysig iawn bod QTVIs ac addysgwyr yn addysgu ein plant ni am sut i gael mynediad at y cwricwlwm yn y ffordd y bydd pan fyddant yn cael eu harholiadau. Mae angen i ddarpariaeth arholiadau fod yn ei lle a dylai papurau ymarfer fod ar gael hefyd.

Fy mab i yw'r unig un yn yr ysgol sydd â nam ar y golwg felly rydw i'n deall pam nad ydyn nhw'n ymwybodol o faterion nam ar y golwg. Rydw i'n meddwl bod y

**Astudiaeth achos yn parhau:**

Fframwaith Cwricwlwm yn rhoi mwy o strwythur i'r cymorth y mae plentyn â nam ar y golwg yn ei gael. Mae'n golygu bod yr athrawon a'r Cynorthwywyr Addysgu i gyd yn gallu canu o'r un llyfr emynau. Mae'n dda i rieni wybod amdano hefyd oherwydd mae cyfarfodydd blynyddol yn emosiynol i ni yn aml ac mae'n helpu i gael rhywbeth o'n blaen y gallwn ganolbwyntio arno. Mae'n rhoi gwybodaeth i rieni am yr hyn y mae'n rhaid iddyn nhw ymladd drosto, a'r bobl ifanc hefyd.

# Cloi allan o addysg ôl-16

Mae'r anghysondeb yn y gefnogaeth yn gwaethygu mewn addysg ôl-16. Canfu adroddiad Rhyddid Gwybodaeth 2023 yr RNIB ddull anghyson o ddarparu cymorth arbenigol mewn sefydliadau addysg bellach ar draws awdurdodau lleol. Heb unrhyw arweiniad clir ynghylch sut dylai staff arbenigol ddarparu cymorth, i lawer o blant a phobl ifanc â nam ar y golwg, mae'r cymorth yn dod i ben pan fyddant yn gadael yr ysgol. [4]

# Cloi allan o'r gweithle

Os nad yw gweithwyr proffesiynol arbenigol yn cael eu cynnwys mewn sgyrsiau sy'n ymwneud â chynllunio pontio a pharatoi ar gyfer gyrfa, yn aml nid yw'r arweiniad a gaiff plant a phobl ifanc â nam ar y golwg yn ystyried eu hanabledd yn ddigonol.

**"Rydw i'n meddwl bod y cyngor gyrfaoedd yn sylfaenol iawn. Maen nhw'n dweud wrth bob person ifanc am wneud yr hyn maen nhw'n ei fwynhau. Rydw i'n teimlo y dylai fod mwy o gyngor gyrfaoedd arbenigol i bobl ifanc â nam ar eu golwg." Hannah, rhiant**

Gall y CFVI gynorthwyo addysgwyr nam ar y golwg arbenigol, cymwys i godi ymwybyddiaeth o'r angen i blant a phobl ifanc â nam ar y golwg dderbyn gwybodaeth ac arweiniad wedi'u teilwra i wneud penderfyniadau am eu dyfodol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'r angen am ddysgu sgiliau i sicrhau cyflogaeth. Gall mabwysiadu'r CFVI yn ffurfiol sefydlu mynediad teg at wasanaethau ledled Cymru a'r DU i gefnogi ffordd gydweithredol o weithio.

# Pan mae pethau'n mynd o chwith

Er bod tystiolaeth sy'n dangos sut gall addysg arbenigol wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar y golwg, ceir tystiolaeth gyson hefyd sy'n tynnu sylw at yr hyn a all fynd o'i le pan na cheir mynediad at y cymorth sydd arnynt ei angen.

## Bwlch cyrhaeddiad

Mae bwlch cyrhaeddiad cyson ac arwyddocaol rhwng plant a phobl ifanc â nam ar y golwg a'u cyfoedion heb anghenion dysgu ychwanegol. Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae canlyniadau TGAU yn dangos bwlch o fwy na 26% ar gyfer disgyblion sy'n cyflawni Lefel 2 (cyfwerth â 5 A* i C) gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a mathemateg, gwahaniaeth y mae angen mynd i'r afael ag ef [5].

## Bod yn agored i fod yn NEET hirdymor

Mae ystadegau gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod plant a phobl ifanc 16 i 18 oed ag anabledd yng Nghymru fwy na dwywaith yn fwy tebygol o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) na'u cyfoedion nad ydynt yn anabl. Mae hyn yn codi i fwy na phedair gwaith yn fwy tebygol ar gyfer y rhai 19 i 24 oed [6].

Gall nifer o ffactorau beri risg i blant a phobl ifanc â nam ar y golwg ddod yn NEET, fel ennill lefelau cymhwyster is, methu â chael mynediad i addysg, cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer profiad gwaith a diffyg arweiniad gyrfaoedd wedi'i deilwra [7].

## Annibyniaeth gyfyngedig

Mewn rhai ardaloedd o Gymru, mae cyfran uchel o blant a phobl ifanc â nam ar y golwg yn methu â chael cymorth cymhwyso i'w galluogi i ddatblygu'r sgiliau cyfeiriadedd, symudedd a byw yn annibynnol sydd arnynt eu hangen ar gyfer addysg ac fel oedolion ifanc [4].

Gall yr effaith ar gynhwysiant cymdeithasol fod yn sylweddol. Er enghraifft, yn aml nid yw oedolion ifanc â nam ar y golwg yn gwneud cais am swyddi mewn lleoliadau anghyfarwydd oherwydd nad oes ganddynt yr hyder i deithio yn annibynnol [8].

## Bwlch lles

Mae plant a phobl ifanc â nam ar y golwg yn nodi llai o lesiant ac iechyd meddwl gwaelach na'u cyfoedion â golwg llawn. Yn 17 oed roedd plant a phobl ifanc â nam ar y golwg bum gwaith yn fwy tebygol o 'deimlo'n isel drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser' [9].

Mae pwysau ychwanegol ar blant a phobl ifanc â nam ar y golwg wrth orfod delio â systemau anhygyrch, yr angen am eiriol dro ar ôl tro dros addasiadau angenrheidiol a theimlo eu bod wedi'u heithrio'n gymdeithasol [9].

## Cael y cyllid yn iawn

Er mwyn llwyddo, mae angen system ar y CFVI sy'n gallu ymateb i anghenion plant a phobl ifanc â nam ar y golwg. Fel y nodwyd eisoes, mae'r system i gefnogi gweithlu arbenigol yn ddarniog ac i lawer o awdurdodau lleol mae problem gyda chapasiti. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae cyllideb un consortiwm (sy'n darparu gwasanaethau cymorth addysg nam ar y golwg ar draws pum awdurdod lleol) a dau wasanaeth nam ar y golwg arall wedi cael ei thorri unwaith o leiaf [4]. Gyda'i gilydd, mae'r timau hyn yn darparu cymorth i bron i draean y plant a'r bobl ifanc â nam ar y golwg yng Nghymru.

Gan fod nam ar y golwg yn anabledd amledd isel, nid yw arbedion maint yn caniatáu i bob ysgol a lleoliad AB recriwtio eu gweithlu arbenigol eu hunain. Mae angen gwasanaethau canolog sy'n gallu cefnogi plant a phobl ifanc â nam ar y golwg yn y lleoliad addysg o'u dewis.

Dyma pam mae'n rhaid cael cronfa ganolog o arian wedi'i warchod y gall awdurdodau lleol gael mynediad ati i ddiwallu anghenion poblogaethau ag anabledd llai cyffredin.

## Beth sydd angen digwydd nesaf

Mae gweithredu'r system ADY yng Nghymru yn gyfle i fynd i'r afael â'r materion hyn. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau'r canlynol:

**Mae'r CFVI yn cael ei gydnabod a chyfeirir ato mewn polisïau Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth ADY newydd a chodau diwygiedig.**

Ni all yr annhegwch yn y ddarpariaeth addysg a'r cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc â nam ar y golwg barhau. Mae'r CFVI yn rhannu uchelgais y system ADY i gefnogi pob dysgwr i gyrraedd ei botensial ac mae'n darparu'r sylfaen dystiolaeth o ran sut gellir cyflawni hyn ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar y golwg.

**Mae'r CFVI wedi'i ymgorffori yn fframweithiau comisiynu a darparu gwasanaethau awdurdodau lleol.**

Nid yw'n ddigon i weithwyr proffesiynol ddewis defnyddio'r fframwaith yn wirfoddol. Er mwyn rhoi terfyn ar anghydraddoldebau daearyddol, rhaid ei fabwysiadu ar draws pob awdurdod lleol.

**Mae pob lleoliad addysgol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc â nam ar eu golwg a'u teuluoedd yn cadw at y CFVI, mewn partneriaeth ag arbenigwyr nam ar y golwg.**

Rhaid i gymorth arbenigol fod ar gael ym mhob lleoliad addysg, o feithrinfeydd i sefydliadau addysg bellach.

**Mae'r CFVI wedi'i ymgorffori mewn safonau ansawdd a hyfforddiant proffesiynol i athrawon plant â nam ar eu golwg ac arbenigwyr cymhwyso ledled y DU.**

Bydd yr eglurder a ddarperir gan y CFVI yn datrys y dryswch ynghylch pa gymorth sydd ei angen ar blant a phobl ifanc â nam ar y golwg a phwy sy'n gyfrifol neu'n gymwys i gyflawni hyn.

**Mae cyllid canolog digonol i awdurdodau lleol allu cefnogi eu poblogaethau nam ar y golwg lleol.**

Mae angen i ni sicrhau bod darpariaeth gyfartal ledled y wlad fel bod plant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr, a gweithwyr addysg proffesiynol, yn gallu cael eu cefnogi gan weithlu arbenigol.

# Casgliad

Dylai plant a phobl ifanc â nam ar y golwg gael mynediad cyfartal at gyfleoedd mewn bywyd, fodd bynnag, mae'r holl dystiolaeth yn dweud wrthym fod eu haddysg yn methu â chyflawni hyn ar hyn o bryd. Mae'r CFVI yn rhoi cyfle i weithredu dull cyson o ddarparu cymorth arbenigol drwy gydol addysg. Bydd mabwysiadu'r CFVI yn ffurfiol yn galluogi'r fframwaith i gael yr effaith fwyaf, gan roi cyfle i botensial plant a phobl ifanc â nam ar y golwg gael ei wireddu'n llawn.

**Am ragor o wybodaeth**

Gallwch ddarllen mwy am y CFVI yn: **rnib.in/CFVI** e-bost atom ni ar: **CYPF@rnib.org.uk**.



# Cyfeiriadau


1. Hewett et al (in press) Development of a new curriculum framework for children and young people with vision impairment: a United Kingdom consultation using Delphi approach. British Journal of Vision Impairment.
2. Douglas, G. et al (2019). A Rapid Evidence Assessment of the effectiveness of educational interventions to support children and young people with vision impairment. Cardiff: Welsh Government, GSR report number 39/2019. https://www.gov.wales/effectiveness-educational-interventions-support-children-and-young-people-vision-impairment
3. Reflections of Transition Experiences by Young People with Visual Impairments aged 19-22, University of Birmingham, https://www.birmingham.ac.uk/documents/college-social-sciences/education/victar/reflections-of-transition-experiences-accessible.pdf
4. RNIB Freedom of Information Reports, RNIB. https://www.rnib.org.uk/living-with-sight-loss/supporting-others/left-out-of-learning/freedom-of-information-reports/
5. Key Stage 4 indicators by year and SEN (Special educational need) type, Welsh Government, https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4
6. Young people not in education, employment or training (NEET), April 2020 to March 2021; proportion of young people not in education, employment or training by characteristic, chart 5 (disability), https://www.gov.wales/young-people-not-education-employment-or-training-neet
7. Lost in Transition? The post-school experiences of young people with vision impairment, University of Birmingham, https://www.birmingham.ac.uk/documents/college-social-sciences/education/victar/lost-in-transition.pdf
8. Longitudinal Transitions Study, University of Birmingham, https://www.birmingham.ac.uk/research/victar/research/longitudinal-transitions-study/index.aspx
9. Secondary analysis of the Millennium Cohort, RNIB, 2022, https://www.rnib.org.uk/professionals/health-social-care-education-professionals/knowledge-and-research-hub/reports-and-insight/secondary-analysis-of-the-millennium-cohort-survey/

RNIB

# Contact details

cypf@rnib.org.uk

www.rnib.org.uk/cfvi

© RNIB registered charity in England and Wales (226227), Scotland (SC039316), Isle of Man (1226). Also operating in Northern Ireland.